**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024.

**Huw Irranca-Davies**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

22 Hydref 2024

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau y DU (“ETS y DU”) gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (“y prif Orchymyn”) fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, i annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau mewn ffordd gost-effeithiol. Cafodd ei lunio ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, y DU a'r Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd rhyngddynt yn gweithredu ETS y DU ar y cyd fel Awdurdod ETS y DU ("yr Awdurdod"). Mae'r Cynllun yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr i leihau allyriadau yng Nghymru.

1.2 Yn 2022, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ar “Developing the UK Emissions Trading Scheme (UK ETS)”. Roedd ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad yn cynnwys sawl ymrwymiad amser-gritigol a gafodd eu rhoi ar waith trwy Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 (y ddau'n orchmynion ar lefel Prydain Fawr yn unig) a thrwy Reoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023 a wnaed gan Lywodraeth y DU. Roedd y rhain yn atebion dros dro oedd eu hangen gan nad oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn eistedd ar y pryd.

1.3 Mae'r diwygiadau arfaethedig y bydd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 yn eu gwneud yn eu hymgorffori nawr yn neddfwriaeth ETS y pedair gwlad. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn yn cynnwys hefyd ymrwymiadau tebyg i ehangu'r allyriadau a gwmpesir a gwella darpariaethau gorfodi'r cynllun. Cafodd ymgynghoriad wedi'i dargedu ei gynnal ar rai o'r cynigion ar gyfer y darpariaethau gorfodi.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Gan y bydd Seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni fernir ei bod yn rhesymol ymarferol gwneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i'r CCA yn nodi bod rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy’n gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yr achos hwn – drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

3.2 Rhagnodir y weithdrefn ar gyfer gwneud Gorchymyn o'r fath yn y Cyfrin Gyngor gan adran 48 o'r CCA.

3.3 Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 yn cynnwys darpariaethau sy'n cael eu dal gan adran 48(3) o'r CCA. Felly, dilynir y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

3.4 Cafodd ETS y DU ei sefydlu gan y Prif Offeryn a daw'n weithredol o 1 Ionawr 2021. Bydd yn para am ddeng mlynedd fydd yn cael ei rannu'n ddau "gyfnod dyrannu" pum mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gweithfeydd diwydiannol ynni-ddwys, cynhyrchwyr pŵer a gweithredwyr awyrennau fonitro ac adrodd ar eu hallyriadau a chael ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae cap ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Bydd rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad o lwfansau am ddim, i'w helpu i osgoi dadleoli carbon[1] a chyhoeddir y manylion mewn tablau dyrannu.

3.5 Bu sawl diwygiad i'r prif Orchymyn i wneud newidiadau technegol sy'n gwella'r modd y mae ETS y DU yn gweithredu ar gyfer cyfranogwyr a rheoleiddwyr. Mae'r diwygiadau hynny wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion canlynol yn y Cyfrin Gyngor: Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024.

3.6 Gwnaed y prif Orchymyn a'r Gorchmynion diwygio hyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA. Mae'r Gorchymyn diwygio hwn hefyd yn cael ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

3.7 Gwnaed diwygiadau hefyd i ETS y DU trwy is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Cyllid 2020. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn: Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Phlatfformau Arwerthu Cydnabyddedig (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2021, a Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Wrth i'r cynllun aeddfedu, mae'r Awdurdod wedi bod yn ceisio gwella sut mae'n gweithredu. Roedd yr ymgynghoriad "Developing the UK Emissions Trading Scheme (UK ETS)" yn 2022 yn cynnig nifer o newidiadau sylfaenol i'r

---

[1] Carbon wedi'i ddadleoli yw'r allyriadau a gynhyrchir pan symudir safle cynhyrchu o un wlad i wlad arall am fod lefel yr ymdrech i ddatgarboneiddio trwy brisio carbon a rheoliadau hinsawdd yn wahanol.

cynllun, ynghyd â diwygiadau sydd eu hangen i reoleiddio gweithrediad ETS y DU yn y dyfodol.

4.2 Mae ymateb yr Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi barn yr Awdurdod am y diwygiadau yr ymgynghorwyd arnynt.

4.3 Er mai bwriad yr Awdurdod oedd gwneud y newidiadau hyn cyn gynted â phosibl, gan nad oedd y Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon yn gweithredu, bu'n rhaid mynd ati i ddeddfu gam wrth gam.

4.4 Cafodd y diwygiadau y barnwyd eu bod yn hanfodol i ETS y DU allu gweithredu eu gwneud yn ystod y cyfnod pan nad oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn eistedd, fel deddfwriaeth Prydain Fawr yn unig. Hynny trwy Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023.

4.5 Roedd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 yn cynnwys hediadau o Brydain Fawr i'r Swistir o fewn cwmpas ETS y DU o fis Ionawr 2023, tra bod Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 wedi gwneud newidiadau i'r defnydd o ddyraniadau am ddim (FAs) ym maes hedfan; dal, cludo a storio carbon; a chynhyrchwyr trydan.

4.6 Dilynwyd y trywydd hwn gyda chytundeb Ysgrifennydd Parhaol Gogledd Iwerddon a chyda'r bwriad o'i unioni cyn gynted ag y byddai Cynulliad Gogledd Iwerddon yn aileistedd. Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Y Gorchymyn Diwygio") yn gwireddu'r bwriad hwn.

4.7 Cafodd newidiadau critigol eraill eu rhoi ar waith dros dro drwy Reoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, hynny  oherwydd yr un broblem yng Ngogledd Iwerddon. O ganlyniad, cafodd nifer y lwfansau yr oedd modd eu gwerthu mewn ocsiwn ei ostwng yn unol â chap newydd ETS y DU, tan y bydd modd newid y cap trwy OS cadarnhaol o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ("CCA"). Mae'r Gorchymyn Diwygio hwn nawr yn gwneud y newidiadau hynny.

4.8 Mae'r Gorchymyn diwygio hwn yn deddfu ar gyfer y newidiadau sy'n weddill, a nodir yn ymateb yr Awdurdod i'r “Developing the UK Emissions Trading Scheme”, fydd yn cael eu gwneud erbyn 2025. Maent yn sefyll ochr yn ochr â mân ddiwygiadau pellach i gosbau sifil. Roedd rhai ohonynt yn destun ymgynghoriad wedi'i dargedu ym mis Chwefror 2024.

4.9 Yn benodol, pwrpas y Gorchymyn diwygio yw diwygio'r prif Orchymyn a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig er mwyn:

4.9.1 Cysoni deddfwriaeth sy'n darparu cap ar gyfer ETS y DU, ailosod nifer y lwfansau y gellir eu rhoi am ddim i gyfranogwyr y mae risg iddynt ddadleoli carbon (y "cap y diwydiant") a chreu cronfeydd wrth gefn o lwfansau y gellir eu defnyddio i esmwytho newidiadau annisgwyl o ran pris a chyfaint yn y farchnad (y "gronfa wrth gefn hyblyg"). Bydd y newidiadau hyn yn alinio ETS y DU ag uchelgeisiau sero net pedair gwlad y DU ac yn galluogi marchnad ETS y DU i weithredu'n effeithiol.

4.9.2 Estyn Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 i Ogledd Iwerddon – i roi'r newidiadau i'r defnydd o lwfansau am ddim ar waith ym maes hedfan; dal, cludo a storio carbonstorio; a chynhyrchwyr trydan.

4.9.3 Ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir fel bod ETS y DU unwaith eto'n cwmpasu 4 gwlad y DU ar ôl i Weithrediaeth a Chynulliad Gogledd Iwerddon ailymgynnull.

4.9.4 Ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys fentio carbon deuocsid ($CO_2$) o'r sector cynhyrchu olew a nwy i gryfhau potensial ETS y DU i ddatgarboneiddio.

4.9.5 Cryfhau a chysoni mesurau i orfodi ETS y DU drwy gyflwyno cosbau sifil newydd a hysbysiad gorfodi, gan newid y cosbau presennol er mwyn cael mwy o gysondeb ar draws ETS y DU.

4.10 Terfyn tiriogaethol y Gorchymyn hwn yw'r Deyrnas Unedig.

4.11 Mae'r prif newidiadau wedi'u crynhoi isod:

*Diwygio’r prif Orchymyn*

4.12 Mae **Erthygl 5** o'r Gorchymyn diwygio yn newid ystyr hediadau o fewn cwmpas yr ETS i gynnwys hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir. Mae hefyd yn newid ystyron yr ymrwymiadau o ran "surrender" er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn sgil y Gorchymyn diwygio.

4.13 Mae **Erthygl 6** o'r Gorchymyn diwygio yn newid cap ETS y DU ar gyfer cyfnodau masnachu 2021-2025 a 2026-2030, gan ei gysoni â'r newidiadau a wnaed eisoes i Reoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021.

4.14 Mae **Erthygl 7** o'r Gorchymyn diwygio yn newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo terfyn y lwfansau y gellir eu creu mewn blwyddyn gynllun, er mwyn caniatáu defnydd mwy hyblyg o lwfansau o fewn y flwyddyn, ond sy'n rhwystro'r terfyn hwnnw rhag effeithio ar gronfeydd wrth gefn amrywiol sy'n hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd hirdymor y farchnad, tra bod **Erthygl 8** yn diwygio ffigurau'r cap sylfaenol i fod yn gyson â chap cyson Sero Net.

4.15 Mae **Erthygl 9** o'r Gorchymyn diwygio yn creu'r gronfa wrth gefn hyblyg ac yn darparu ar gyfer y gwahanol ddibenion y gellir ei defnyddio, gan gynnwys defnyddio lwfansau am ddim ar gyfer gweithfeydd presennol ac ar gyfer darparu lwfansau ychwanegol mewn ocsiynau. Mae **Erthyglau 40** a **41** o'r Gorchymyn diwygio yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021.

4.16 Mae **Erthygl 10** yn dileu darpariaethau sydd bellach yn amherthnasol sy'n ymwneud â gweithredwyr awyrennau yn ildio lwfansau, yn dilyn cyflwyno'r hysbysiad diffyg a ddisgrifir ym mharagraff 4.19 isod.

4.17 **Erthygl 11** – yn ailosod nifer y lwfansau yn y Gronfa i Newydd-ddyfodiaid yn dilyn y newid i'r cap, ac yn egluro gwahanol ddibenion y lwfansau o'r gronfa wrth gefn.

4.18 Mae **Erthyglau 12 a 13** yn ei gwneud yn bosib diweddaru tablau'r FA ar gyfer gweithredwyr hedfan ar ôl ail-gyfrif FAs i ystyried gweithgarwch hedfan hanesyddol rhwng Gogledd Iwerddon a'r Swistir fel yr eglurir ym mharagraff 4.40.

4.19 Mae **Erthyglau 14 a 15** yn cyflwyno'r hysbysiad diffyg pan fydd yr allyriadau'n fwy na'r lwfansau a ildiwyd, er mwyn gallu ildio'r swm cywir o lwfansau. Mae **Erthygl 15** yn nodi hefyd cynnwys a gweithdrefnau'r hysbysiad diffyg.

4.20 Mae **Erthyglau 16 a 17** yn diwygio'r darpariaethau ar gyfer hysbysiadau cosb er mwyn caniatáu cyflwyno hysbysiad cosb pan fydd person yn agored i gosb sifil am beidio â chydymffurfio â hysbysiad diffyg. Maent hefyd yn symleiddio'r darpariaethau ar gyfer amserlenni'r gosb ddyddiol a allai fod yn rhan o'r gosb sifil a osodir.

4.21 Mae **Erthygl 18** yn datgymhwyso'r darpariaethau cosb sifil o dan Erthygl 51 y prif Orchymyn ar gyfer ysbytai ac allyrwyr bach (HSEs) am fynd dros y meini prawf allyriadau, hynny trwy gyfeirio at y cosbau newydd a ragnodir yn Erthygl 57 o'r prif Orchymyn.

4.22 Mae **Erthygl 19** yn dileu ffactorau nad oes angen eu hystyried mwyach wrth benderfynu ar y gosb allyriadau dros ben am beidio ag ildio lwfansau, oherwydd cyflwyno'r hysbysiad diffyg. Mae'n diwygio hefyd y fformar gyfer cyfrifo'r ffactor chwyddiant.

4.23 Mae **Erthygl 20** yn newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r gosb sifil lle nad oes lwfansau wedi cael eu trosglwyddo na'u hildio pan welir y bu tanadrodd ar ôl trosglwyddo. Mae hyn yn ei gwneud yn gyson â'r gosb diffyg sydd newydd ei chyflwyno.

4.24 **Mae Erthygl 21** yn diwygio'r gosb i HSE sydd wedi tanadrodd eu hallyriadau, i'w gwneud yn fwy cyson a chymesur â'r gosb gyfatebol i brif gyfranogwyr y cynllun.

4.25 Mae **Erthygl 22** yn newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r gosb sifil ar gyfer y senario pan nad yw gweithredwr HSE yn hysbysu pan fydd yr HSE yn peidio â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn HSE. Bydd hyn yn galluogi defnydd cyson o elfen gosbi'r gosb sifil.

4.26 Mae **Erthygl 23** yn newid y fformiwla gyfrifo i wneud y gosb i allyrwyr bach iawn (USE) am danadrodd allyriadau yn fwy cymesur â chosbau tebyg i brif gyfranogwyr y cynllun.

4.27 Mae **Erthygl 24** yn creu cosb sifil newydd am beidio â chyflwyno gwybodaeth i'r rheoleiddwyr a ddisgrifir yn erthygl 27A o Orchymyn 2020 (lle na wnaed cais am lwfansau am ddim ond lle bo'n ofynnol cyflwyno gwybodaeth benodol).

4.28 Mae **Erthygl 25** yn creu cosb sifil newydd am beidio â chydymffurfio â hysbysiad diffyg, tra bod **Erthygl 26** yn ymdrin ag apelio yn erbyn hysbysiad diffyg.

4.29 Mae **Erthygl 27** yn ychwanegu hediadau o'r DU i'r Swistir at y diffiniad o weithgaredd hedfan, yn dilyn ehangu darpariaeth hedfan ETS y DU i gynnwys hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir.

4.30 Mae **Erthygl 28** yn diwygio'r diffiniad o “regulated activity” i gynnwys tynnu Nwyon Tŷ Gwydr o brosesu olew a nwy ar safle cynhyrchu sy'n arwain at fentio carbon deuocsid ($CO_2$). Mae hefyd yn nodi'r meini prawf cymhwyso amrywiol sy'n gysylltiedig â'r diffiniad.

4.31 **Mae Erthygl 29** yn newid y diwygiadau a wnaed gan y prif Orchymyn i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2066 (Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018) fel y cafodd ei gymhwyso i gyfraith ddomestig. Mae'n nodi'r cwmpas a'r rheolau monitro penodol gan gynnwys methodolegau monitro sy'n berthnasol i dynnu nwyon tŷ gwydr ar safle cynhyrchu.

4.32 Mae **Erthygl 30** yn newid y diwygiadau a wnaed gan y Prif Orchymyn i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2067 (Rheoliad Dilysu 2018) fel y cafodd ei gymhwyso i gyfraith ddomestig. Mae'n golygu bod tynnu nwyon tŷ gwydr ar safle cynhyrchu yn cael ei gynnwys yng nghwmpas yr achrediad sydd ei angen ar gyfer dilyswyr, er mwyn medru dilysu allyriadau'r gweithgareddau sydd newydd eu cynnwys ac a ddisgrifir ym mharagraff 4.30.

4.33 Mae **Erthygl 31** yn diwygio'r darpariaethau ynghylch cofrestrfa ETS y DU, sy'n ganlyniad i gyflwyno'r gronfa wrth gefn hyblyga'r hysbysiad diffyg (y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4.15 a 4.19 uchod).

4.34 Mae **Erthygl 32** yn gwneud newidiadau i'r darpariaethau sy'n ymdrin â thrwyddedau nwyon tŷ gwydr, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed mewn mannau eraill yn y Gorchymyn diwygio megis yr hysbysiad diffyg.

*Newidiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (y Rheoliad Dyraniadau am Ddim (FAR)) fel y cafodd ei gymhwyso i gyfraith ddomestig.*

4.35 Mae **Erthygl 34** o'r Gorchymyn diwygio yn ychwanegu diffiniad o “upstream GHG removal” i'r FAR, yn dilyn ei gynnwys yn ETS y DU, a ddisgrifir ym mharagraff 4.30.

4.36 Mae **Erthyglau 35 a 38** o'r Gorchymyn diwygio yn gwneud newidiadau ategol i'r modd y priodolir mewnbynnau, allbynnau neu allyriadau perthnasol wrth adrodd at ddibenion yr FA yng nghyd-destun gweithgarwch tynnu nwyon tŷ gwydr yn y man cynhyrchu sydd newydd ei gynnwys.

4.37 Mae **Erthygl 36** yn diwygio'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r ffactorau cywiro traws-sectoraidd (mecanwaith sy'n lleihau hawl cyfranogwyr i lwfansau am ddim os yw'r nifer sy'n gymwys am lwfansau am ddim mewn cyfnod dyrannu yn fwy na chap y diwydiant) i gyfri'r defnydd o gronfeydd wrth gefn hyblyat y diben hwn. Mae hefyd yn diwygio lefel cap y diwydiant.

4.38 Mae **Erthygl 37** yn eithrio nwyon tŷ gwydr a dynnir yn y man cynhyrchu trwy fentio, gweithgaredd newydd ei ychwanegu nad yw'n gymwys am lwfansau am ddim, rhag eu trin fel allyriadau proses wrth benderfynu ar lefelau gweithgarwch hanesyddol at ddiben cyfrifo pwy sy'n gymwys am lwfans am ddim.

*Newidiadau i Orchymyn Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021*

4.39 Mae **Erthyglau 40** a **41** yn diwygio Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021 er mwyn gallu diweddaru'r cyfeintiau y gellir eu harwerthu yn y calendr arwerthu yn unol â newidiadau i'r gyfran hyblyg a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn hyblyg er mwyn cyfyngu ar gostau.

*Newidiadau eraill*

4.40 Mae **Erthyglau 42** a **43** yn caniatáu cywiro cyfrifiadau'r FA ar gyfer hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir, a chaniatáu hefyd i geisiadau newydd gael eu gwneud am FA i gydnabod lefelau gweithgarwch hanesyddol yn sgil cynnwys y llwybr hwn yn ETS y DU.

4.41 Mae **Erthygl 44** yn dirymu Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 a oedd, fel mesur rhagarweiniol, yn cynnwys hediadau o Brydain Fawr i'r Swistir. Mae bellach yn ddiangen, gan fod hediadau o'r DU i'r Swistir wedi'u cynnwys yn ETS y DU.

4.42 Mae **Erthygl 45** yn diwygio cwmpas Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 o Brydain Fawr i'r DU gyfan.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cyn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael ac ystyried cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (adran 48(1)(a) CCA). Mae hefyd yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r personau hynny yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth ddrafft fel y gwelant yn briodol (adran 48(1)(b) CCA).

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad penodol gyda rhanddeiliaid perthnasol rhwng 23 Chwefror 2024 ac 08 Mawrth 2024, o ystyried cwmpas cyfyngedig y newid. Rhannwyd Ymateb yr Awdurdod i hyn gyda rhanddeiliaid ar 30 Medi 2024. Mae copi ar gael ar gais.

5.3 Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd ac mae wedi nodi ei fod yn fodlon i'r ddeddfwriaeth hon fynd yn ei blaen.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Er bod mân newidiadau yn y Gorchymyn hwn i'r darpariaethau rheoleiddio er mwyn unioni anghysonderau, nid yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Bach iawn iawn, os o gwbl, yw'r costau a'r arbedion i'r sectorau cyhoeddus, preifat, elusennol na gwirfoddol o ganlyniad i'r diwygiadau hyn. Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

6.2 Dylid nodi hefyd nad yw'r cynigion wedi newid lefel gyffredinol yr uchelgais o ran yr hinsawdd yn ETS y DU.

6.3 Er nad yw'n ofynnol gan bolisi'r Llywodraeth, cynhyrchwyd asesiad effaith rheoleiddiol o effaith ETS y DU ar gostau busnesau, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ac mae ar gael ochr yn ochr â'r prif Orchymyn ar: Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 - Asesiad Effaith (legislation.gov.uk).

6.4 Cyhoeddwyd asesiad effaith pellach ochr yn ochr â phrif ymateb Awdurdod ETS y DU i Ymgynghoriad Datblygu ETS y DU ym mis Mehefin 2023, lle cyhoeddodd Awdurdod ETS y DU newidiadau i'r cynllun gan gynnwys Cap ETS y DU a fentio carbon deuocsid. Mae'r Gorchymyn hwn yn deddfu ar gyfer y newidiadau hynny. Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar gael yn: Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: diwygiadau arfaethedig: asesiadau effaith | LLYW.CYMRU